# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 24 Medi 2015

Amser: 09. - 14.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3233

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Christine Chapman AC (Cadeirydd)<br>Peter Black AC<br>Alun Davies AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Mark Isherwood AC<br>Gwyn R Price AC<br>John Griffiths AC (yn lle Gwenda Thomas AC)<br>Rhodri Glyn Thomas AC |
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog<br>Bethan Webb, Llywodraeth Cymru<br>Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Amelia John, Llywodraeth Cymru<br><br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru<br><br>Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru<br><br>Bon Westcott, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br><br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br><br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br><br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br><br>Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)<br><br>Hannah Johnson (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 478KB) Gweld fel HTML (531KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwenda Thomas AC a Jocelyn Davies AC. Dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Gwenda Thomas AC, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Ymchwiliad Etifeddiaeth: Prif Weinidog Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru
- Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- Awen Penri, Pennaeth y Gangen Datblygu Cymraeg Mewn Addysg, Llywodraeth Cymru

2.2 Datganodd Mike Hedges AC y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae ei ferch yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg a sefydliadau ieuenctid sy'n cael arian gan Fenter Iaith. Mae hefyd yn ymwneud â'r Urdd.

2.3 Datganodd Peter Black AC y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'n aelod o awdurdod addysg lleol.

# 3 Ymchwiliad Etifeddiaeth: Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
- John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
- Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
- Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru

3.2 Datganodd Peter Black AC y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'n gynghorydd lleol.

3.3 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y Gweinidog i

- Ysgrifennu at y Pwyllgor erbyn mis Mawrth 2016 yn rhoi gwybodaeth am ganlyniad gwaith y tasglu yn ystyried:
  - sut i wella perfformiad gwasanaethau addasu cartrefi;
  - sut i sicrhau bod pob gwasanaeth addasu yn cael ei werthuso'n effeithiol, a pherfformiad pob un yn cael ei fonitro, ac nid dim ond Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Awgrymu bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn rhannu gyda'r Pwyllgor unrhyw waith cynllunio a wneir ar hyfywedd tir y comisiwn coedwigaeth mewn cysylltiad â datblygiadau tai.
- Darparu gwybodaeth am faint o dir a ryddhawyd ar gyfer tai yn y ddwy flynedd diwethaf, a faint sy'n debygol o gael ei ryddhau yn y ddwy flynedd nesaf.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad Etifeddiaeth: Prif Weinidog Cymru, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth – ystyried tystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

## 6 Ymchwiliad Etifeddiaeth: Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
- Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
- Bon Westcott, Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Ymchwiliad Etifeddiaeth: Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus – ystyried tystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

## 9 Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC – ystyried y papur cwmpasu

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC.

## 10 Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.